OneLinc

Creu’r Amgylchedd lawn i Bobl Ffynnu

2019 - 2021

Linc

Croeso i OneLinc

Rwy'n eithriadol o falch o fod wedi ymuno â Linc yn 2018, busnes cryf ac ucheigeisioi lle'r ydym yn awyddus i edrych tua'r dyfodol ac ymestyn yr effaith a gawn yn y sectorau tai a gofal.

Mae pwy ydym ni a'r rôl sydd gennym yn cael eu siapio gan ein cydweithwyr, ein cwsmeriaid a'n partneriaid busnes, a gyda'n gilydd rydym yn sgrifennu stori newydd. Stori o'r enw OneLinc.

Fel OneLinc, rydym wedi cymryd golwg o'r newydd ar yr hyn sydd gan y dyfodol i'w gynnig. Credwn fod ein byd yn newid yn barhaus, ac rydym eisiau arwain y dasg o ymateb i'r newidiadau hynny. Felly, mae ein pennod nesaf yn mynd y tu hwnt i ddarparu cartrefi a gwasanaethau rhagorol, a chaiff ei chyfleu yn ein diben unigryw:

Creu'r amgylchedd iawn i bobl ffynnu

Bydd ein diben ar gyfer OneLinc yn sail i bopeth a wnawn dros y blynyddoedd nesaf. Trwy roi agosatrwydd a llesiant wrth galon a chraidd ein ffordd o weithio, byddwn yn creu diwylliant lle y gallwn weithio gyda'n gilydd ac ymfalchïo yn y gwahaniaeth a wnawn i fywydau pobl, bob un diwrnod.

Pa un a ydych newydd ddechrau gweithio i Linc neu wedi gweithio gyda ni ers blynyddoedd lawer, dyma fan cychwyn ein siwrnai OneLinc. Gobeithio y bydd yr arweiniad hwn yn ddefnyddiol ichi wrth inni ddechrau siapio'r ffyrdd a ddefnyddiwn i gyflawni ein diben, gyda'n gilydd.

SCOTT SANDERS
Prif Swyddog
Gweithredol

Ein Diben

Diben **OneLinc** yw...

...creu’r amgylchedd iawn i bobl ffynnu.

Ond beth y mae hyn yn ei olygu mewn gwirionedd?

Fel OneLinc, ein nod yw cyfrannu at Gymru fwy ffyniannus ac iach, lle gwych i fyw a gweithio ynddo, yn awr ac yn y dyfodol.

Y Darlun Mwy

Yn ystod y tair blynedd nesaf byddwn yn adeiladu mwy o gartrefi nag erioed o'r blaen, gan sicrhau eu bod yn fwy na llefydd gwych i fyw ynddynt. Bydd y cartrefi a adeiladwn a'r amgylcheddau naturiol a fydd yn eu cynnal yn cyfrannu at wella ansawdd bywydau pobl, ac fel darparwr gofal byddwn yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol a'r GIG i ymdrin ag anghenion poblogaeth sy'n heneiddio a gwasanaeth iechyd sydd dan fwy o bwysau nag erioed o'r blaen.

Rydym yn falch o fod yn rhan o sector sydd wedi dangos yn gyson ei werth i economi Cymru, a chredwn y bydd ein cynlluniau ar gyfer 2019-2021 yn parhau i helpu'r sector hwn i ffynnu – er budd ein cymunedau a Chymru gyfan.

Gwariodd Cymdeithasau Tai £1.2 biliwn yn 2017/18.

Arhosodd 84% o holl wariant Cymdeithasau Tai yng Nghymru.

Ychwanegwyd £886 miliwn o werth gros at economi Cymru.

Cefnogir 23,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn gan y sector tai.

Canolbwyntio ar Lesiant

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb o ran cyrraedd uchelgeisiau Llywodraeth Cymru, a byddwn yn cadw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dydodol a'i saith nod ar flaen ein meddyliau wrth inni lunio ein huchelgeisiau a'n blaenoriaethau.

Ein huchelgais yw cynorthwyo i greu Cymru iachach, ac er y bydd ein rol yn amrywio, byddwn bob amser yn anelu at ddod o hyd i ganlyiadau cyffredin gyda'n cydweithwyr o'r sectorau cyhoeddus a phreifat a chyflawni ystod o amcanion Llywodraeth Cymru.

Cymru lewyrchus

Cymru gydnerth

Cymru sy'n fwy cyfartal

Cymru iachach

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel Byd-eang

Creu Cymunedau



Mae Linc yn gweithio gyda deg o ardaloedd Awdurdodau Lleol ac mae'n ymwybodol o'r gwahanol gyfleoedd a'r gwahanol heriau sy'n bodoli ar gyfer y cymunedau hynny. Gwyddom y bydd gwrando ar gymunedau a gweithredu ar sail eu hangerdd i wella yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Ein huchelgais yw cyfrannu at Gymru iachach a mwy llewyrchus, lle gwych i fyw a gweithio ynddo, yn awr ac yn y dyfodol, felly mae ail-fuddsoddi yn nhwf cymunedau presennol ar frig ein rhestr o flaenoriaethau.

Penderfyniadau'n Seiliedig ar Fewnwelediad

Bydd ein gwelliannau a'n dysgu'n cael eu hategu trwy ddefnyddio mewnwelediad busnes. Ein huchelgais yw symud ein gwybodaeth busnes i fan lle y gallwn gynllunio ein gwasanaethau ar sail mewnwelediad rhagweladwy, gan ein helpu i wneud penderfyniadau cadarnach.

Bydd defnyddio data byw yn esgor ar ddulliau gweithio doethach a fydd yn rhyddhau mwy o amser i gydweithwyr ei dreulio gyda phreswylwyr y mae arnynt angen ein cymorth, tra y bydd dewisiadau digidol yn galluogi cwsmeriaid i gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau allweddol pryd a ble y bydd hynny'n gweddu iddynt.

Partneriaeth a Chydweithredu

Mae'r lleoedd a'r cymunedau rydym yn gweithio ynddynt yn newid, a golyga hyn y gall fod angen inni feddwl yn wahanol; caiff partneriaethau sy'n gallu arwain at ateb mwy cyflawn a chytbwys eu croesawu.

Fel busnes sy'n awyddus i ddysgu, byddwn yn creu partneriaethau sy'n canolbwyntio ar ddeall effaith ein gwaith – bydd hyn nid yn unig yn helpu Linc i gynllunio'i ddyfodol, ond bydd hefyd yn cynorthwyo'r sector tai yn ehangach i fod mor effeithiol ag y bo modd.

organstone
constructing the future

Gwerthoedd OneLinc

Er mwyn creu’r amgylchedd iawn i bobl ffynnu, byddwn yn:

Angerddol

Ymfalchïwn ym mhopeth a wnawn a chawn ein sbarduno gan agwedd gadarnhaol, heintus. Mae hyn yn tanio ein dymuniad i weithio gyda’n gilydd i greu amgylcheddau lle y gall pobl ffynnu a lle y gellir cael Cymru hapusach, iachach.

Uchelgeisiol

Mae ein Hangerdd yn ysgogi ein hymdeimlad o Uchelgais. Mae’n ein gwneud yn chwilfrydig, yn ein hannog i ddod o hyd i ffyrdd o herio’r ‘pethau arferol’ a chroesawu syniadau newydd a fydd yn darparu profiadau gwych i’n cwsmeriaid a’n cydweithwyr.

Parchu Pobl

Ond mae ein Huchelgais wedi’i seilio ar Barchu Pobl a gwrando. Rydym yn trysori ein cwsmeriaid a’n staff, gan wrando arnynt a dysgu ganddynt. Nid ydym byth yn cyflwyno newidiadau’n ddireswm; yn hytrach, rydym yn defnyddio mewnwelediad i ymateb i’w hanghenion.

Mae ein gwerthoedd yn diffinio'r ffordd rydym yn cyflawni ein diben, sut rydym yn ymddwyn fel busnes ac fel unigolion, sut rydym yn rhyngweithio gyda'n cydweithwyr, ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid.

Maent hefyd yn diffinio sut rydym yn swnio, y ffordd rydym yn sgrifennu neu'n siarad gyda phobl. 'Tôn ein llais' y gelwir hyn.

Gyda'n gilydd rydym yn rhoi'r gwerthoedd hyn ar waith er mwyn inni, fel OneLinc, allu ymddwyn a chyfathrebu mewn ffordd glir a chyson gyda'n holl gynulleidfaoedd, a bydd hyn yn ein galluogi i gyflawni ein diben.

Felly, beth yw Cynllun Busnes OneLinc?

Ers dod yn Gadeirydd ym mis Mawrth 2018, mae fy edmygedd tuag at Linc a'm cyd-aelodau ar y Bwrdd wedi parhau i dyfu ac wedi gwneud imi ymfalchïo yn y rôl hon.

Gyda'r balchder hwn y cyflwynaf ichi rai o fentrau allweddol ein cynllun OneLinc.

Mae OneLinc yn gynllun uchelgeisiol ar gyfer busnes sy'n canolbwyntio ar ei bobl a'i gymunedau. Bydd ein gwerthoedd a'n diben newydd yn sbarduno'r cynllun hwn, a dengys nodau a blaenoriaethau OneLinc y gwaith y byddwn yn mynd i'r afael ag ef er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

RICHARD NORTON
CADEIRYDD Y BWRDD

Twf a Busnes Newydd

Wrth inni adeiladu mwy o gartrefi fforddiadwy a cheisio tyfu ein busnes, byddwn yn defnyddio dulliau adeiladu newydd ac arloesol ac yn cynllunio cartrefi ar sail llesiant ein cwsmeriaid.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr rydym yn brysur yn adeiladu pentref llesiant newydd o'r enw Sunnyside, lle y byddwn yn ymgorffori Safon Adeiladu WELL yng nghynllun y cartrefi a'r ganolfan iechyd.

Caiff ein fflatiau gofal ychwanegol yn Rhondda Cynon Taf eu hadeiladu trwy ddefnyddio adeiladwaith modiwlar arloesol, sef techneg lle y caiff nifer o adrannau neu focsys ynni-effeithlon, o ansawdd da, eu creu mewn fattri cyn cael eu rhoi wrth ei gilydd ar y safle.

Nodau OneLinc:

- Creu 1,700 o gartrefi newydd erbyn 2026, sy'n cynorthwyo ansawdd bywyd da.
- Darparu cartrefi i'w gwerthu i gynorthwyo ein buddsoddiad parhaus mewn cartrefi fforddiadwy.
- Ymestyn ein defnydd o ddulliau adeiladu modern er mewyn creu datblygiadau amgylcheddol ymwybodol a chynaliadwy.
- Llunio partneriaethau i greu atebion sy'n diwallu anghenion iechyd, tai, hamdden a gweithle.

Llesiant a Datblygiad Personol

Rhan fawr o'r hyn y mae OneLinc yn ei gynrychioli yw ymrwymiad i weithio fel un tîm i gyflawni'r hyn y mae pobl ei angen. Golyga hyn ryddhau amser staff er mwyn iddynt allu canolbwyntio ar y pethau sydd bwysicaf i'n cwsmeriaid, tra y bydd ein cydweithwyr yn cael eu hannog i wneud yn fawr o'u talentau trwy fuddsoddi yn eu datblygiad personol.

Nodau OneLinc:

- Cynllunio arferion ac amgylcheddau gwaith sy'n ategu llesiant.
- Buddsoddi mewn staff a phreswylwyr er mwyn gwneud yn fawr o'u talentau.
- Dysgu a gwella trwy gyfrwng ymchwil ac arloesi.
- Meithrin sgiliau sy'n ategu Linc fel busnes modern.

Gwasanaethau Modern a Rhagorol

Dengys ein Cynllun Busnes OneLinc ein bod yn ymuno ag eraill yn y sector i fynd ar drywydd dewisiadau digidol gwell ar gyfer ein cwsmeriaid, wrth inni geisio darparu gwasanaethau modern sy'n cyd-fynd â'r byd o'n cwmpas. Mae disgwyliadau ein cwsmeriaid a'n staff yn uwch nag erioed o'r blaen, yn sgil technoleg glyfar a'r defnydd o wasanaethau digidol ym mhob rhan o'n bywydau.

Amcanion OneLinc:

- Cyflwyno gwasanaethau digidol er mwyn diwallu anghenion cyfnewidiol ein cwsmeriaid.
- Buddsoddi mewn systemau sy'n cynorthwyo ein staff i weithio'n effeithlon.
- Defnyddio data a mewnwelediad i gynorthwyo gyda phenderfyniadau gwybodaeth.
- Dysgu a gwella trwy gyfrwng ymchwil a phartneriaethau.

Busnes Ffyniannus

Rydym mewn sefyllfa gref o ran cyllid a llywodraethu, ac rydym yn hyderus y bydd ein Cynllun Busnes OneLinc, trwy gydweithredu a buddsoddi, yn ein galluogi i chwarae rôl bwysig yn rhaglen tai a dull rheoleiddio Llywodraeth Cymru.

Amcanion OneLinc:

- Cefnogi uchelgais gymdeithasol ac economaidd cwsmeriaid.
- Cynnwys ein cwsmeriaid, gwrando ar eu syniadau, dysgu yn eu sgil a gweithredu ar eu sail.
- Gwerth am Arian yn arwain gwelliannau i greu capasiti.
- Darparu fframwaith llywodraethu modern.

Linc
linc-cymru.co.uk
@Linc_Cymru

Cymunedau am Waith
Communities for Work

Cipolwg ar Linc

Ar hyn o bryd mae 565 o bobl angerddol, uchelgeisiol a llawn parch yn gweithio yn Linc, ac mewn arolwg diweddar dywedodd 91% fod gweithio yma'n gwneud iddynt fod eisiau cyflawni'r gorau y gallant.

Rydym ar hyn o bryd yn creu'r amgylcheddau iawn i bobl ffynnu ar draws deg o Ardaloedd Awdurdodau Lleol, gan ddarparu 4,500 o gartrefi a gwasanaethau i fwy na 9,000 o bobl.

Bydd ein cynllun OneLinc yn ymdrin â'r galw cynyddol am dai ledled De Cymru, a'r bwriad yw adeiladu 1,700 o gartrefi newydd erbyn 2026.

Mae ein tri chartref nyrsio'n cynnig cysur a gofal penodedig i 211 o bobl hŷn yng Nghaerdydd a Chasnewydd.

Rydym hefyd yn rhoi wyth o gynlluniau gofal ychwanegol ar waith, gan ddarparu dulliau byw annibynnol diogel i 388 o bobl hŷn, ac mae chwech o gynlluniau pellach ar ddod.

Cipolwg ar Linc

Mae ein portffolio masnachol yn cynnwys Sefydliad Lysaght eiconig Casnewydd, sef lleoliad unigryw a fforddiadwy ar gyfer priodasau, cynadleddau, grwpiau cymdeithasol, partïon preifat a digwyddiadau corfforaethol.

Mae Lôn y Barics yn ardal breswyl a manwerthu brysur yng Nghaerdydd lle y ceir cymysgedd o unedau manwerthu a busnes gyda 27 o fflatiau preswyl.

Rydym yn falch o'r effeithiau cadarnhaol y gallwn eu cael ar fywydau pobl, sef rhywbeth a adlewyrchir yn ein Harolwg o Fodlonrwydd Tenantiaid yn ddiweddar.

- Mae staff Linc yn gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn gymwynasgar – 91%
- Mae'n hawdd gwneud cais am drwsio rhywbeth – 89%
- Mae'n hawdd cysylltu â Linc a gwneud busnes ag ef – 84%
- Mae'r rhent yn werth da am arian – 85%

Mae'r ymrwymiad hwn i wasanaeth o'r radd flaenaf wedi ein helpu i gael Sgôr Hyrwyddwr Net o +34, a llwyddasom i ennill Safon Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid yn 2018 ac 2019.

Iechyd Ariannol

Rydym yn gweithredu'n ôl geriad cost hanesyddol o 41.8%, sy'n is o lawer na'n cyfamod ariannol o 70%.

Ffeithiau a Ffigurau Allweddol ar gyfer 2017/18

£ 41 miliwn
Trosiant

£ 155 miliwn
Benthyciadau/Cyllid Preifat

£ 346 miliwn
Asedau am y gost

£ 50 miliwn
Cyllid wrth gefn

Cydweithredu

Dymuna'r Tîm Gweithredol ddiolch i'n holl gydweithwyr ar draws Linc, ein Tîm o Uwch-arweinwyr, Aelodau'r Bwrdd, ein partneriaid a'r Panel Tenantiaid am eu hymdrechion parhaus, eu gwaith caled a'u cyfraniadau pwysig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym wedi cyrraedd lle cyffrous yn ein hanes, ac edrychwn ymlaen yn awr at weithio gyda'n gilydd fel OneLinc, gan greu'r amgylchedd iawn i bobl ffynnu a chyflawni ein Cynllun Busnes OneLinc.

The Board

Richard Norton, Keith Shankland,
Jonathan Pearce, Brian Thomas, Bev Mills
Alan Sinclair, Lynda Williams, Julia Attwell
Gerraint Oakley, Mandy Newton,
Richard Miles

The Executive Team

Scott Sanders
Campbell Bardo
Nicola Smith
Louise Attwood
Richard Davies

The Senior Leadership Team

Liz Parry, Kevin Howell, Andrea Gale,
Abigail Katsande, Catherine Divers, Gareth
Davies, Stephen Wardrobe, Liz Jones

OneLinc

Creu'r Amgylchedd lawn i Bobl Ffynnu

2019 - 2021

www.linc-cymru.co.uk/onelinc